Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch mae'n rhaid cyfeirio at farwolaeth ddisymwth Mr Henry Ames. Bu'n flaenor ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Groes ers bron i 40 mlynedd ac roedd bob amser yn werthfawrogol o bob darpariaeth yn yr Ofalaeth hefyd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eleri ei briod, a'r plant – Eirian, Geraint a Llŷr a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Gweddïwn eu bod yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu yn eu galar a'u hiraeth amdano ac y byddant yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf hyn.

Yr un modd, cydymdeimlwn ag Elwyn Jones (Llannefydd) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mrs Eunice Hughes, a hynny mor fuan wedi i Elwyn golli ei frawd yng nghyfraith hefyd. Cyflwynwn y teulu hwn eto i ofal yr Arglwydd a gweddïwn y byddant yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu.

Parhawn i gofio am Meurig Owen (Cefn Meiriadog) sydd bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari, a hefyd Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n derbyn gofal arbennig yng Nghanolfan Walton. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt.

Anfonwn ein cofion hefyd at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal, sef Richard M. Jones (Cefn Berain); Gwen Evans (Saron); Dilys Jones (Nantglyn); a hefyd Selwyn Davies (Nantglyn) sydd erbyn hyn wedi symud i gartref Plas Llanrhaeadr. Fe'u cyflwynwn oll i ofal Duw gan weddïo eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ceinlys Jones (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn y dyddiau nesaf!

Estynnwn ein dymuniadau gorau hefyd i Rhys Williams (Hiraethog) a Ceri Roberts fydd yn priodi diwedd y mis. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.

Enwebiadau Medal Gee

Bob blwyddyn cyflwynir medalau Gee i ffyddloniaid yr Ysgol Sul yng Nghymru sydd dros 75 oed ac wedi bod yn ffyddlon i'r ysgol Sul, un ai fel athrawon i blant ac ieuenctid neu fel athrawon a disgyblion mewn dosbarth oedolion. Yn ogystal â ffyddlondeb i'r Ysgol Sul, mae dosbarthiadau Beiblaidd a grwpiau astudiaeth yn cael eu cynnwys. Cyflwynir y medalau yn ystod mis Medi bob blwyddyn, ac i dderbyn medal eleni bydd angen i bob ffurflen gais fod mewn llaw erbyn Mehefin 30ain. Tybed oes yna rywrai yn eich eglwys leol chi sy'n gymwys i dderbyn y fedal eleni? Mae manylion llawn ar gael ar wefan www.ysgolsul.com. Gallwch glicio ar y ddolen Ffurflen Gais Medalau Gee i lawrlwytho ffurflen, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21 Mai 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Y deugeinfed dydd

Dydd Iau diwethaf (neu heno, os cawsoch y rhifyn hwn trwy e-bost) oedd y deugeinfed diwrnod wedi Sul y Pasg: dydd cofio esgyniad yr Arglwydd Iesu Grist. Am ddeugain niwrnod wedi iddo atgyfodi, ymddangosodd Iesu i'w ddisgyblion cyn diflannu wedyn: dod a mynd o'u golwg cyn eu gadael yn derfynol ar y dydd a alwn ni'n 'Ddydd Iau Dyrchafael'. Mae Luc yn cofnodi ei ymadawiad mewn un frawddeg gryno: 'Wedi iddo ddweud hyn, a hwythau'n edrych, fe'i dyrchafwyd, a chipiodd cwmwl ef o'u golwg' (Actau 1:9). Am olygfa ryfeddol! Iesu Grist yn cael ei godi oddi ar y ddaear ac yn esgyn yn uwch ac uwch nes bod cwmwl rywsut yn lapio o'i amgylch a'i gymryd o olwg ei ddisgyblion. Parodd yr olygfa drafferth i lawer o bobl. Ei godi'n llythrennol oddi ar y ddaear? Oes disgwyl i ni gredu bod hyn wedi digwydd? Oes, wrth gwrs. Mae'n rhan o hanes Iesu ac yn rhan o'r Efengyl. Nid yw ronyn mwy anhygoel na geni ac atgyfodiad Iesu. Os daeth Mab Duw o'r nefoedd i'r ddaear trwy ei eni ym Methlehem, ac os daeth Iesu o farwolaeth i fywyd trwy ei atgyfodiad, pam na all fynd o'r ddaear i'r nefoedd trwy ei esgyniad? Mae ein cyndynrwydd i gredu ac i sôn am y digwyddiad yn rhyfedd ac annisgwyl o gofio bod y disgyblion yn llygad-dystion iddo.

Yn ôl Luc, un peth o bwys y mae'r Esgyniad yn ei ddangos yw bod gwaith Crist yn para. Ysgrifennodd Luc ddau lyfr: Efengyl Luc a Llyfr yr Actau. Ac meddai, 'Ysgrifennais y llyfr cyntaf ... am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu hyd y dydd y cymerwyd ef i fyny' (Actau 1:1). Yn Efengyl Luc, ceir hanes Iesu: ei eni, ei fywyd a'i weinidogaeth a'i ddysgeidiaeth, ei farwolaeth a'i atgyfodiad a'i esgyniad. Ond dechrau'r stori yw hynny: mae'r stori'n parhau yn Llyfr yr Actau gan fod Iesu, wedi iddo esgyn i'r nefoedd, yn parhau ei waith trwy ei ddisgyblion sy'n cyflawni eu gweinidogaeth yn nerth ei Ysbryd Glân.

Ar un wedd, pobl a adawyd yn amddifad oedd y disgyblion, ond roedd Iesu am barhau ei waith trwyddynt. Wedi bod yn yr Oedfa Sefydlu ym Mangor y Sadwrn diwethaf, feiddiwn ni awgrymu y gall rhai ohonoch chithau deimlo'n amddifad heddiw wedi blynyddoedd o weinidogaeth ffyddlon Rhodri a'i ragflaenwyr? Mae'r Dyrchafael yn eich atgoffa bod gwaith yr Arglwydd Iesu'n parhau, a bod yr Ysbryd a fu'n arwain ac yn cynnal yr apostolion yn abl i ddal i'ch arwain a'ch cynnal chithau yn y gwaith hwnnw.

Y Parch. John Pritchard

Pwyllgor Bugeiliol

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Bugeiliol **nos Lun, Mehefin 5ed** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7:30. Erfyniwn ar bob un ohonoch i weddïo'n daer am arweiniad Duw dros yr wythnosau nesaf hyn fel ag y byddwn, trwy ein penderfyniadau, yn cyflawni ewyllys Duw ar gyfer y Fro. Gofynnwn hefyd i Dduw gadw anghenion y Fro ar ein calonnau wrth inni geisio'r ffordd ymlaen ac i roi inni weledigaeth sicr a gobeithiol o genhadaeth yr eglwys i bob oed.

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mai 21ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan. Bydd cyfle ar derfyn yr oedfa yng Nghefn Meiriadog i weddïo am arweiniad Duw wrth i'r Ofalaeth geisio'i ewyllys o ran gweinidogaeth Eglwysi Bro Aled.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00.
- **Oedfa Fedydd yn Llannefydd** am 10:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris pryd y bydd Manon a Will McNiece yn cyflwyno Huw Elwy i'w fedyddio.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn** am 2:00 a chyfle i weddïo am arweiniad Duw i'r Pwyllgor Bugeiliol wrth inni fel Gofalaeth ystyried y ffordd orau ymlaen.
- **Oedfa'r Fro yn Groes** am 6:00 gyda Celfyn Williams yn arwain a'r Parch. Meirion Morris yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Llun, Mai 22ain

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM** am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Hon fydd yr Astudiaeth gyntaf o dair ar y thema "Myfi yw'r Wir Winwydden" gan y Parch Meirion Morris o'r llyfr thema newydd. Y tro hwn, "Y Winwydden yn y Beibl" fydd y testun. *(Manylion mewngofnodi:* https://us02web.zoom.us/j/82697406470?pwd=aThkKohEUlFKTXFoMU8zL00zV1FDZz09 neu cysylltwch â Mair os byddwch am ymuno dros y ffôn. Meeting ID: 826 9740 6470, Passcode: 901953*)*. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Mai 23ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Mercher, Mai 24ain

- **Cyfarfod Gweddi Arbennig** yn Llannefydd am 8:00 i weddïo am arweiniad Duw wrth i'r Ofalaeth geisio'i ewyllys o ran gweinidogaeth Eglwysi Bro Aled.

Dydd Gwener, Mai 26ain

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Y Fron, Dinbych am 6:30 yr hwyr *(sylwch ar yr amser)*. Ni fydd Cyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul yn cael ei gynnal eleni.

Dydd Sul, Mai 28ain

- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd **Ysgol Sul yn Groes** am 10:15.
- **Cyfarfod Gweddi Arbennig yn Saron** am 10:00 i weddïo am arweiniad Duw wrth i'r Ofalaeth geisio'i ewyllys o ran gweinidogaeth Eglwysi Bro Aled.
- **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llansannan** am 10:30 o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn.

Dydd Mawrth, Mai 30ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Gwener, Mehefin 2il

- **Paned a Sgwrs** yng Nghapel Llannefydd am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Mehefin 4ydd

- **Cyfarfod Gweddi Arbennig yn Llansannan a Llanfair** am 10:00, ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 i weddïo am arweiniad Duw wrth i'r Ofalaeth geisio'i ewyllys o ran gweinidogaeth Eglwysi Bro Aled.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 gydag Alun Jones yn arwain a'r Parch. Alun Morton Thomas yn pregethu.

Rhaghysbys

Yn dilyn y bleidlais a gynhaliwyd yn Llansannan ac yn Henllan ychydig wythnosau yn ôl, cafwyd bod y ddwy eglwys o blaid ethol mwy o flaenoriaid. Felly, os bydd yr Henaduriaeth yn eu cyfarfod nesaf yn cydsynio â'r cais, bydd dau aelod o blith yr Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais arall ar Fehefin 18fed (yn Llansannan am 9:30 ac yn Henllan am 11.00), y tro hwn er mwyn enwebu blaenoriaid newydd.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (31ain), os gwelwch yn dda.